# HEDDWCH

Rhifyn 69 > Haf 2018 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear


# DYFODOL DI-NIWCLEAR

Estelle Ios




***'Ymbelydrol!' Cian Ciarán o'r Super Furry Animals yn mynd â'r brotest wrth-niwclear i'r Senedd ym Mae Caerdydd.***

## Dim arfau niwclear, dim pŵer niwclear…

Mae aelodau CND Cymru yn gweithio gyda chyd-ymgyrchwyr ym mhedwar ban i wahardd pob arf niwclear trwy weithredu Cytundeb y CU.

Mae CND Cymru hefyd yn gwrthwynebu obsesiwn gwleidyddion â phŵer niwclear sydd wedi bod ynghlwm â defnydd milwrol o'r cychwyn cyntaf. Na i Wylfa B, na i Hinkley C yr ochr draw i'r dŵr, a na i Adweithyddion Modiwlaidd Bychain ym Nhrawsfynydd.

***Dim ond dyfodol cwbl ddi-niwclear all sicrhau diogelwch cenedlaethau i ddod.***

# Mae'n bryd creu newyddion da

***Aeth blwyddyn heibio ers i 122 o wledydd bleidleisio dros fabwysiadu Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear yn y Cenhedloedd Unedig. Mae hwn yn gytundeb amserol mewn byd mwyfwy cythryblus.***

Gwelodd 2018 ymgais Donald Trump a Kim Jong-Un o Ogledd Korea i bardduo'u gilydd yn troi'n gofleidio cynnes. Arddangoswyd hyn yn uwchgynhadledd Singapore (a ganslwyd ac a ad-drefnwyd wedyn ar frys) ym mis Mehefin. Rhaid i rywun sy'n cefnogi diarfogi groesawu détente a bwriad i ddadniwcleareiddio penrhyn Korea, ond bydd y canlyniad terfynol yn dibynnu ar y sylwedd a'r print mân. Roedd penderfyniad unochrog Trump i dynnu allan o'r cytundeb niwclear gydag Iran ym mis Mai yn gosod cynsail gwael. Rhaid i ddiarfogi ddigwydd yng nghyd-destun y gyfraith ryngwladol a chytundebau parhaol sy'n rhwymo'r llofnodwyr. Dyna pam mae'r cytundeb CU newydd hwn mor hanfodol.

## *O'r ynfyd i adfyd*

Anodd dychymygu sefyllfa fwy peryglus na ras arfau niwclear cyfnod y Rhyfel Oer (1945-91) a elwid, yn addas iawn, yn MAD (Mutually Assured Destruction). Fodd bynnag, mae trefn – neu anhrefn – cyfredol y byd yn ddigon i beri braw. Mae cyflenwadau arfau niwclear mawr yn dal heb eu rheoleiddio gan Gytundeb Atal Ymlediad 50-mlwydd oed, a anwybyddir yn amlach na pheidio. Mae ymladdwyr ISIS/Daesh yn gweithredu y tu allan i gytundebau a chyfraith ryngwladol. Mae arfau niwclear maes-cad, rhyfel seiber a dronau milwrol yn ehangu cwmpas arfau brawychol y wladwriaeth. Mae Trump yn galw am filitareiddio'r gofod (ymhellach), tra bod ei gefnogwyr yn llafarganu 'Llu Gofod! Llu Gofod! ' fel lloi.

## *Amserau cythryblus*

Disodlwyd cyfwynebiad statig y Rhyfel Oer gan ryfeloedd masnach a methiant hen gynghreiriau, gan adfywiad ffasgaeth a hiliaeth ledled y byd, gan yr elyniaeth gynyddol rhwng Rwsia a Gorllewin rhanedig, gan ryfeloedd dirprwyol yng ngorllewin Asia, gan argyfyngau ffoaduriaid, gan chwalu cydlyniad cymdeithasol trwy bolisïau economaidd didrugaredd, a chan newid hinsawdd.

**Pa mor farwol yw taflegryn niwclear modern?**

Mae un o ergydion niwclear taflegryn Trident wythgwaith yn fwy pwerus na bom Hiroshima 1945.

Arfogaethau niwclear y byd Mehefin 2018:

| | | |
|---|---|---|
| Y Ffederasiwn Rwsiaidd | 6,850* | ✓ |
| Unol Daleithau America | 6,550* | ✓ |
| Ffrainc | 300 | ✓ |
| China | 280 | ✓ |
| Y Deyrnas Unedig | 215 | ✓ |
| Pakistan | 145 | - |
| India | 135 | - |
| Israel | 80 | - |
| Gogloedd Korea | 15 | X |

*Mae gan y Ffederasiwn Rwsiaidd 4,350 o daflegrau gweithredol. Mae gan UDA 4,000 o daflegrau gweithredol.

✓ Y Cytundeb Atal Ymlediad (CAY)

X Tynnwyd allan yn 2003

Ffynhonnell: Y Gymdeithas Rheolaeth Arfau

## *Unwaith eto: gwahardd y bomiau hyn!*

Er gwaethaf yr holl argoelion tywyll yma, gall – a rhaid i – ewyllys da ennill y dydd. Mae gwrthod goddef arfau niwclear yn rhan o frwydr lawer iawn mwy, ond mae'n un bwysig ac yn un enilladwy. Po fwyaf y cyflawnwn, gorau oll fydd y newyddion.




Neil Conroy

*Grŵp Heddwch Sir Gonwy, Llandudno*

# Dwedwch wrth May am arwyddo nawr!

***Daeth aelodau o CND Cymru a llawer o weithredwyr eraill dros heddwch i San Steffan ar 20 Mehefin 2018 i annog y llywodraeth i arwyddo'r cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear.***

Cadwynodd deugain o bobl eu hunain wrth y rheiliau haearn sy'n ymestyn o Big Ben i Sgwâr y Senedd, â baneri'n dweud "Denuclearise the World – Sign the Treaty." Bu trigain arall wrthi'n siarad â'r bobl o amryw genhedloedd a oedd yn cerdded heibio, gan ddosbarthu tafleni a chanu caneuon heddwch. Daeth pum AS, yn cynnwys tri AS Plaid Cymru, allan o'r Senedd i siarad â'r protestwyr a'r wasg.

Meddai Angie Zelter o Drefyclo, Powys: "Ers diwedd y Rhyfel Oer mae'r byd i raddau helaeth wedi anghofio am arfau niwclear. Byddai defnyddio dim ond cyfran fechan o'r arfau niwclear sydd o gwmpas y byd yn achosi newyn a marwolaeth biliynau o bobl, yn ychwanegol at y dinistr uniongyrchol a'r ymbelydredd a gâi ei ledaenu.

"Mae'r sefyllfa'n ddifrifol. Cyhyd ag y bo'r DU a gwledydd eraill yn parhau i ddibynnu ar arfau niwclear i greu argraff o bŵer, yna bydd gwledydd fel Gogledd Korea am eu cael nhw hefyd, gan gynyddu'r perygl y cânt eu defnyddio ryw ddydd.

"Dylem ddewis diogelwch gwirioneddol, arwyddo'r Cytundeb, a gweithio i sicrhau dileu arfau niwclear yn llwyr."

Wrth gwrs, dim ond mewn gwledydd sydd wedi'i arwyddo a'i gadarnhau y bydd y cytundeb mewn grym. Ond mae cyfraith rhyngwladol yn effeithio ar wledydd sydd heb arwyddo hefyd: nid yw'r Unol Daleithau, Rwsia na China wedi arwyddo'r cytundeb ffrwydron tir, ond does yr un ohonynt yn defnyddio ffrwydron tir mwyach.

## heddweithredu:

Os hoffech wybod mwy am agwedd gwlad benodol tuag at y cytundeb, neu os ydych yn fodlon sgrifennu at wahanol wledydd ynglŷn â'r cytundeb, cysylltwch â brian.jones@phonecoop.coop

• Os carech ymuno â'r brotest 'Trên Heddwch', gweler y manylion, t. 13.

### Flwyddyn yn ddiweddarach, sut siâp sydd ar y Cytundeb?

***Rhaid i 50 gwlad arwyddo a chadarnhau cyn iddo ddod i rym. Hyd yma:***

- **mae 12** gwlad wedi arwyddo a chadarnhau'r cytundeb;
- **mae 36** wedi arwyddo'r cytundeb ac yn y broses o'i gadarnhau; mae rhyw 15 o'r rhain yn debyg o gwblhau'r broses gadarnhau yn 2018 a dylai efallai 20 arall gadarnhau'r cytundeb yn 2018.
- **Mae 11** gwlad wedi arwyddo'r cytundeb ond heb gychwyn ar y broses gadarnhau;
- **mae 44** o wledydd wrthi'n ystyried arwyddo'r cytundeb, gyda rhyw 30 yn debygol o arwyddo yn 2018 a'r rhan fwyaf o'r gweddill yn 2019.
- **Pleidleisiodd 20** gwlad arall i sefydlu'r cytundeb ond nid ydynt wedi ystyried ei arwyddo eto.




Zoë Broughton

*Brian a Jan Jones o CND Cymru yn trafod y Cytundeb gyda Jonathan Edwards, AS Plaid Cymru dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

# Mae ar bobl ifanc angen manylion cyfoes

***Un o fanteision bod CND yn 60 mlwydd oed yw'r cyfoeth o brofiad sydd gan weithredwyr sy'n cofio brwydrau'r Rhyfel Oer.***

Ond i'r rhan fwyaf o bobl ifanc, hen hen hanes yw hyn, y dysgant amdano, os o gwbl, trwy fodiwlau astudio sy'n symleiddio materion cymhleth yn rhestrau o ddyddiadau a chytundebau, heb dalu dim sylw i ystyriaethau moesol neu ddyngarol.

### Addysgu

Mae Erin Connolly a Kate Howell yn sgrifennu yn y Bulletin of the Atomic Scientists (11 Mehefin 2018) am eu gwaith gyda myfyrwyr colegau ac ysgolion uwchradd yn UDA. Cawsant bod anwybodaeth eang am arfau niwclear heddiw, yn cynnwys lle maent wedi eu lleoli, eu cost, a'u pŵer. Maent yn galw am unioni hyn. 'Er mwyn i'r cyhoedd fod yn rhan o'r drafodaeth am bolisi niwclear, mae addysg yn hanfodol.'

### Gweithredu

Mae mudiad Addysg Heddwch CND yr Alban wedi cychwyn menter ddiddorol. Gwahoddir rhai 18-30 oed i ddod at ei gilydd mewn 'Academi Heddwch Ieuenctid', sy'n cynnig tridiau o addysg a hyfforddiant mewn gweithredu gwrth-niwclear. Mae angen i ninnau ymgysylltu â phobl ifanc, yn y stafell ddosabarth a thu allan iddi. Nid progaganda sydd ei angen arnynt, ond y ffeithiau moel, sy'n siarad drostynt eu hunain.

# Bachu'r genhedlaeth nesaf

***Amelia Womack, a fagwyd yng Nghasnewydd, yw Dirprwy Arweinydd y Blaid Werdd ers pedair blynedd, ers ei hethol yn 29 oed. Mae angen y genhedlaeth nesaf arnom, meddai, i symud pethau ymlaen.***

### Ail-ymegnïwch!

Deilliodd y mudiad gwrth-niwclear o'r Rhyfel Oer, wrth i bobl godi eu lleisiau yn erbyn y bygythiad mwyaf i fywyd a welodd y byd erioed. Rydym bellach yn byw mewn byd gwahanol, lle mae bygythiad rhyfel niwclear yn ymddangos yn llawer llai.

### Cysylltu'r problemau

Tyfodd cenhedlaeth gyfan i fyny yn cefnogi achosion eraill. Llymder, newid hinsawdd, cyrchoedd dronau: mae'r rhain oll yn achosion sy'n atseinio'n uwch gyda ieuenctid heddiw na'r angen am ddileu ein harfau niwclear.

Mae'n hanfodol ailgysylltu â'r genhedlaeth iau. Dyma pam: Mae'r Torïaid yn hapus i adnewyddu Trident, bydd Llafur yn adnewyddu ond gan deimlo'n wael ynglŷn â hynny. Er bod datganiad clir Jeremy Corbyn y bydd bob amser yn mabwysiadu polisi ail-ddefnydd i'w groesawu, parhau y byddwn i dalu am Arfau Dinistr Torfol ddim ond er mwyn gwneud i'n hunain deimlo'n berthnasol ar y llwyfan byd-eang. Yn y cyfamser, mae rhod y newyddion yn troi. Mae arnom angen ynni newydd a syniadau newydd. Mae cymaint o bobl wedi bod yn ymladd y frwydr gyfiawn ers degawdau, ac mae hynny'n ysbrydoliaeth. Ond pa werth ysbrydoliaeth heb neb i'w hysbrydoli? Daw gweithredwyr newydd, iau â thechnegau ymgyrchu newydd gyda nhw.

### Cyfarwydd â'r cyfryngau

Mae arddegolion heddiw fel pe baent yn deall cyfryngau cymdeithasol yn well na buddsoddwyr yr union gwmnïau hynny, felly mae'n hanfodol i ni elwa ar eu huotledd gyda'r cyfrwng i gyrraedd pobl newydd. Dangosodd mudiadau fel cefnogwyr Bernie Saunders yn UDA y gall y neges iawn gyda'r cynllun digidol iawn ysbrydoli cenedl. Dydy'r frwydr yn erbyn cynnydd niwclear ddim ar ben: rhaid i ni ddenu'r genhedlaeth nesaf i ymuno gyda ni i barhau â'r frwydr.




Julie Simonsen

# Cyfyng-gyngor Ewratom

***Mae effeithiau Brexit yn codi cwestiynau lu. A ddylem adael Ewratom fel mae llywodraeth San Steffan yn ei gynnig? Mae* Jill Evans ASE (Plaid Cymru) yn ystyried yr oblygiadau.**

Rydym yn byw mewn cyfnod o ansicrwydd mawr. Daw peryglon gadael yr Undeb Ewropeaidd i Gymru yn fwy eglur bob dydd, mewn gwrthgyferbyniad llwyr â chynlluniau anhysbys llywodraeth y DU.

Wrth i mi sgrifennu, mae cyfarfod arall eto o'r Cabinet yn digwydd, er mwyn ceisio dod i gytundeb o fewn y Blaid Geidwadol. Anodd felly adrodd ar gynnydd, pan fu cyn lleied ohono. Mae rhwystredigaeth negydwyr Brwsel yn amlwg am nad yw materion o'r pwys mwyaf yn cael eu trafod.

### *Pam mae'r llywodraeth yn dymuno gadael?*

Fe'i gwnaed hi'n glir gan y llywodraeth yn y llythyr i weithredu Erthygl 50 y byddai'n gadael y Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd (Ewratom) yn ogystal â'r UE. Sefydlwyd Ewratom yn 1957 drwy gytundeb, felly mae'n gyfreithiol ar wahân i'r UE ond yn ddibynnol ar Lys Cyfiawnder Ewrop (LlCE) i allu gweithredu.

Dyna pam mae'r llywodraeth am ymadael, gan ddod â therfyn ar awdurdod LlCE yn y DU.

### *Swyddogaeth reoleiddio*

Mae Euratom yn hyrwyddo ac yn cefnogi pŵer niwclear. Mae hefyd yn rheoleiddio cludo a defnyddio deunyddiau ymbelydrol, yn cynnwys safonau iechyd a diogelwch, ac mae'n ymchwilio hefyd. Crewyd Ewratom er mwyn creu marchnad gyffredin niwclear gyda rhydd-symudiad i ddeunyddiau, gwyddonwyr a gweithwyr niwclear.

Mae'r DU yn dibynnu ar Ewratom parthed diogelwch gorsafoedd pŵer niwclear, cyflenwi tanwydd niwclear, ac atal ymlediad – gan sicrhau na ddefnyddir deunyddiau niwclear i ddibenion amgen na'u bwriad.

### *Atgynhyrchu safonau*

Mae gan Asiantaeth Cyflenwadau Ewratom hawliau dros ddeunyddiau a gynhyrchir yn yr UE a'r hawl unigryw i gytundebu am ddeunyddiau o'r tu mewn neu'r tu allan i'r UE. Heb Ewratom, rhaid i'r DU atgynhyrchu'r holl reolau hyn a bodloni'r Awdurdod Ynni Atomig Rhyngwladol. Fel y dywedodd Linda Rogers yn yr Heddwch diwethaf, mae Mesur Diogelu Niwclear arfaethedig y DU ymhell o fod yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol.

### *Dibenion meddygol*

Agwedd sy'n destun pryder mawr yw nad yw'r papur, a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Adael yr Undeb Ewropeaidd, sy'n amlinellu nodau'r DU parthed deunyddiau niwclear, yn sôn am isotopau meddygol. Ni ellir cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r deunydd niwclear rydym yn dibynnu arno ym maes meddygaeth yng Nghymru, neu hyd yn oed yn y DU, felly fe'i mewnforir o Ffrainc, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd. Er gwaetha rhybuddion y gymuned feddygol a gwyddonol am effaith hyn ar gleifion cancr sy'n dibynnu ar gyflenwad dirwystr o'r triniaethau hyn, diystyrodd y llywodraeth eu pryderon. Nid yw hyn yn ddigon da. Rhaid sefydlu cytundebau perthnasol a threfniadau cludiant ar draws ffiniau ar fyrder.

### *Mae'r amser yn dod i ben*

Mae adroddiad Mehefin 2018 negydwyr yr UE yn cynnwys Ewratom mewn naw maes lle bu rhywfaint o gynnydd. Nid yw hyn yn ddigon da. Mae gormod yn y fantol ac mae'r cloc yn tician. Mae galwadau cynyddol gan wleidyddion a nifer o sectorau eraill am i'r DU aros o fewn Ewratom, hyd yn oed os bydd yn gadael yr UE.

Mae'n bryd i'r llywodraeth ystyried hyn o ddifrif. Yn ychwanegol at hynny, dylid o leiaf ymestyn y dyddiad cau a bennir gan Erthygl 50 er mwyn sicrhau bod digon o amser i ymdrin â'r materion hyn yn iawn. Yn fy marn innau, y dewis gorau oll fyddai diddymu Erthygl 50 yn llwyr ac aros yn yr UE.

# Wylfa – Dêl neu Ddim Dêl?

***Yn ôl yn 2012 prynodd arch-gorfforaeth Hitachi o Japan gwmni Horizon Nuclear, darpar-ddatblygwyr project pŵer niwclear Wylfa B ar Ynys Môn.***


Erbyn 2016, roedd pennaeth Hitachi, Hiroaki Nakanishi eisoes yn cael traed oer ynglŷn â'r fenter. Roedd costau niwclear yn codi i'r entrychion a chostau ynni adnewyddadwy yn disgyn. Dechreuodd Nakanishi sôn am geisio cefnogaeth ariannol uniongyrchol gan lywodraeth San Steffan, syniad a fu'n anathema i'r Toriaid erioed.

### *Ni sy'n talu, nhw sy'n elwa*

Ym mis Mai 2018, pleidleisiodd bwrdd Hitachi, er gwaethaf amheuon rhai o'r cyfarwyddwyr, i ddal i negydu gyda San Steffan – am y tro. Canlyniad y trafodaethau dechreuol oedd i Theresa May gytuno mewn egwyddor y gallai trethdalwyr y DU gyllido'r project â rhyw £5 biliwn yn ôl amcangyfrifon y wasg. Byddai llywodraeth Japan a chwmnïau a sefydliadau eraill yn buddsoddi hefyd. Byddai'r 'strike price' (gwarant o bris gwrthu'r trydan i ddefnyddwyr) yn is nag eiddo dêl ddrwg-enwog Hinkley C ond, yn ôl rhai arbenigwyr niwclear, roedd y ffigwr hwn mewn gwirionedd yn cael ei 'dylino' er mwyn ein camarwain. Roedd hyd yn oed y pris hwn yn cymharu'n anffafriol â gwynt y môr.

### *Gwlad byth-bythoedd?*

Wedi'r cyfarfod rhwng May a Hitachi, gwnaeth y Gweinidog Ynni Greg Clark ei gyhoeddiad hir-ddisgwyliedig o'r diwedd. Roedd yn aneglur ac yn ddi-ddim, a dweud y lleiaf. Byddid yn mynd ati i negydu ond hyd yma doedd dim cytundeb pendant o safbwynt y naill ochr na'r llall. Cafodd y cynllun cyllido ei feirniadu'n hallt yn y wasg. Mae'r llywodraeth Brydeinig leiafrifol yn anwadal, wedi ei hysigo gan Brexit. Mae'r sefyllfa wleidyddol yn Japan yn ansefydlog hefyd, ac mae ymgyrch egnïol iawn yno yn erbyn allforio technoleg niwclear. Gallai unrhyw beth ddigwydd.




*Wylfa'n creu penawdau yn Japan*

*Mainichi Japan*

# Safwn gyda'n gilydd

***Gyda dyfodol project Wylfa B yn dal yn y fantol, bu Cyfeillion y Ddaear Japan mor hael â gwahodd tri ymgyrchydd gwrth-niwclear o PAWB (Pobl Atal Wylfa-B) i ymgyrchu gyda nhw yng ngwlad Hitachi yr haf yma, o fis Mai i fis Mehefin 2018. Roedd yn brofiad hynod.*** *Holodd Heddwch y cynrychiolwyr:*

**Beth fu tîm PAWB yn ei wneud yn Japan?**

**Robat Idris:** Amserlen orlawn! Ymweld â thref Tomioka a phentref Iitate i weld effeithiau ofnadwy a pharhaol tanchwa Fukushima. Yn Nhokyo dyma ni'n cyfarfod â tair gweinyddiaeth, dau sefydliad ariannol, ASau gwrth-niwclear, cynnal cynhadledd i'r wasg, a chyfarfod â'r cyn-Brif Weinidog, Naoto Kan. Buom yn cynnal tair seminar gyhoeddus hefyd.

**Pa agweddau tuag at niwclear ddaethoch chi ar eu traws yn Japan?**

**Linda Rogers:** Mae bwlch anferthol rhwng haeriadau gweinidogion y llywodraeth, eu bod am 'frolio' technoleg Japaneaidd (ac mae gwneud hynny â thechnoleg yn gysylltiedig â'r fath drychineb â Fukushima yn ffordd od o wneud hynny, medd PAWB), a theimladau'r bobl y cwrddon ni â nhw, a ddisgrifiwyd gan amlaf fel "cywilydd", bod eu llywodraeth yn ystyried allforio'r dechnoleg drychinebus hon i ni yng Nghymru.

## Safwn gyda'n gilydd: parhad




*Gweithredwyr gwrth-niwclear o ogledd Cymru yn teithio i Tokyo: Meilyr Tomos, Robat Idris a Linda Rogers yn ymgyrchu ochr yn ochr ag Ayumi Fukakusa (CyDd Japan) a'r cyn-Brif Weinidog, Naoto Kan.*

**Fe ymwelsoch chi ag ardal Fukushima. Beth oedd eich argraffiadau?**

**Meilyr Tomos:** Y manylion bach sy'n aros yn y cof – gweld chwyn yn tyfu allan o'r bagiau o bridd a grafwyd o wyneb y tir llygredig a'i 'storio dros-dro' – 7 mlynedd yn ddiweddarach. Yn Tomioka mae rhannau o'r dref yn dal yn amhosib byw ynddynt. Mae dail yn chwythu ar draws llinellau dychmygol sy'n dynodi 'diogel' a 'ddim yn ddiogel'.

**Pa broblemau a wynebir gan y bobl a symudwyd o Fukushima heddiw?**

**L R :** Mae pwysau cyson i gario mlaen fel pe bai dim wedi digwydd, tra bod lefelau o gancr y thyroid mewn plant yn dal i godi a ffermwyr yn dal i ddisgwyl i'w tir fod yn ffit i'w drin. Mae llen yn cael ei dynnu dros y drychineb. Dywedodd newyddiadurwr wrthyf ei fod wedi sgrifennu nifer o erthyglau am Fukushima sy'n dal heb eu cyhoeddi. Cred rhai bod codi cwestiynau poenus yn bradychu dewrder a dioddefaint y faciwîs. Yn y cyfamser, mae swyddogion yn symud dau-draeon o'r dyfeisiau mesur ymbelydredd o'r ardal – dywedwyd wrthym nad oedden nhw o anghenraid yn gywir, beth bynnag. Mae gorchmynion gwacáu yn cael eu codi mewn ardaloedd lle mae lefelau llygredd yn uchel o hyd, ac nid yw'r faciwîs yn gymwys i dderbyn iawndal wedyn.

**Fe wnaethoch chi gyfarfod â swyddogion cyllid ac yswiriant yn Japan. Beth oedd eu hasesiad nhw o'r sefyllfa gyda Hitachi?**

**R I :** Anodd iawn dweud! Cofiwch mai'r Llywodraeth biau'r sefydliadau yma. Fel gweision sifil ledled y byd, gofalus iawn oeddan nhw yn eu sylwadau. Defnyddio llawer o eiriau i ddweud, yn y pendraw, na wnaed penderfyniad eto gan Lywodraeth Japan i fuddsoddi yn Wylfa.

**Beth oedd eich argraff chi o agweddau gwleidyddol cyfredol tuag at niwclear yn Japan?**

**L R :** Mae rhwyg gwleidyddol amlwg rhwng ASau'r Blaid Ddemocrataidd Gyfansoddiadol, y buom yn ddigon ffodus i gyfarfod â nhw, a'r blaid lywodraethol, ar gwestiwn allforio technoleg niwclear. Cawsom gyfarfod positif iawn gydag ASau o'r Comisiwn Sero Niwclear, a oedd yn gefnogol iawn i ni pan wnaethom egluro na fydd dadl ddemocrataidd na chraffu seneddol ar y cymhorthdal cyhoeddus arfaethedig i Wylfa B gan drethdalwyr Prydain, a hyn oll mewn cyfnod o lymder a chwtogi ar arian ar gyfer gwasanaethau sylfaenol.

**Cawsom sylw helaeth gan y cyfryngau yn Japan. A oes yna wersi i'w dysgu gartre?**

**M T :** Roedd lefel sylfaenol o barch nad yw'n bodoli yma. Mae'n helpu pan fo dau weithiwr proffesiynol o CyDd Japan yn rhedeg y sioe! Mae'n debyg bod rhaid i ni fod â deunydd yn barod i fynd ar draws pob platfform – roeddent yn hynod effeithiol â'u defnydd o gyfryngau cymdeithasol, a chyhoeddiadau llawr-gwlad.

**Oedd yr ymweliad â Japan o ddefnydd i'r ymgyrch yng Nghymru?**

**R I :** Yn sicr! Cawsom ddarlun lawer gwell o'r sefyllfa yn Fukushima, ac o'r sefyllfa wleidyddol yn Japan. Cryfhawyd ein partneriaeth eithriadol gyda CyDd Japan, a gwnaed llu o gysylltiadau newydd. Disgwylir ymweliadau pellach gan gyfeillion o Japan. Mae proffil PAWB gartre wedi codi'n sylweddol yn dilyn yr ymweliad

**A fydd PAWB yn gweithio gyda grwpiau o Japan yn y dyfodol?**

**M T :** Rwy'n teimlo ein bod wedi gwneud ffrindiau am oes. Mae e-byst, PDFs, Powerpoints a ffilmiau'n hedfan nôl ac ymlaen trwy'r ether. Mae dwy daith i Gymru wedi'u cynllunio eisoes!

# Protest Hinkley yn y llaid a'r llaca

Ddydd Mercher 23 Mai 2018, trafodd y Cynulliad y trwydded a roddwyd i EdF, y cwmni sy'n adeiladu Hinkley Point C, i ddympio gwaddod ger Bae Caerdydd i'w "wasgaru gan y llanw".

Bydd y mwd yn cael ei garthu o Fae Bridgwater, lle mae pibellau all-lif o orsafoedd pŵer niwclear Hinkley A a B wedi bod yn gollwng gwastraff hylif ers 50 mlynedd, er mwyn caniatáu i EdF adeiladu'r pibellau mewnlif ac all-lif ar gyfer Hinkley C, yn ogystal ag adeiladu glanfa i ganiatáu i gydrannau gael eu cludo i'r safle ar y môr.

Trefnodd CND Cymru rali y tu allan i'r Senedd. Fel uchafbwynt, ceisiodd Cian Ciarán o'r Super Furry Animals gyflwyno CD lleidiog mewn bag perygl ymbelydredd i bob Aelod Cynulliad.

Yn y siambr, bu Gweinidog yr Amgylchedd Lesley Griffiths yn amddiffyn y penderfyniad i ganiatáu'r dympio, a gafodd ei "nodi" wedyn gan y Cynulliad. O'r naw AC a siaradodd yn y ddadl, roedd wyth yn gwrthwynebu'r penderfyniad.

Roedd y rhain yn cynnwys aelodau o Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad a fuasai'n ystyried deiseb Tim Deere-Jones a ofynnai am i'r drwydded gael ei gohirio er mwyn gallu cynnal ymchwiliad gwyddonol agored llawn i ganlyniadau amgylcheddol posibl y penderfyniad.

Mae CND Cymru yn ystyried beth arall y gall ei wneud i atal y dympio. Mae'r Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel, cyd-aelod o Gynghrair Wrth-niwclear Cymru, wedi cyhoeddi adroddiad beirniadol newydd a'i gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â rhybuddio Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.




Brian Jones

*CD Cian Ciarán, 20 Millisieverts, yw'r gerddoriaeth a gyfansoddodd fel cyfeiliant i arddangosfa ffotograffig Fukushima Lis Fields yn 2017.*

## NA i forlyn Abertawe...

Ar 25 Mehefin 2018, gwrthododd Ysgrifennydd Ynni'r DU, Greg Clark, y cynllun ynni morlyn arloesol £1.3 biliwn a fwriedid ar gyfer Abertawe, ar y sail ei fod yn cynnig gwerth gwael am yr arian (er gwaethaf cynnig o gyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru). Gellid clywed y genedl yn cyd-dynnu anadl wrth i bobl gofio 'mathemateg' niwclear Hinkley C ac Wylfa B. Roedd gwrthod y morlyn yn destun beirniadaeth ar draws holl raniadau gwleidyddol Cymru.

## ...ond IE i niwcio gogledd-orllewin Cymru

Dridiau wedyn, lansiodd llywodraeth y DU gynllun gwerth mwy na £200 miliwn – yn Nhrawsfynydd – i dalu am ddatblygu 'Adweithyddion Modiwlaidd Uwch', ymchwil i ymasiad niwclear ac i ffyrdd o dorri costau. Clustnodwyd £40 miliwn o'r swm hwn i droi Gogledd Cymru yn 'glwstwr' diwydiannol niwclear yn cysylltu Trawsfynydd, Wylfa, Prifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai yn Gaerwen. Ymateb drwgdybus a gafodd y cyhoeddiad. Roedd yn ddamcaniaethol, heb fawr o sylwedd ac yn mynd yn groes i dueddiadau byd-eang. Byddai'n clymu Cymru unwaith eto i mewn i uniad milwrol-ddiwydiannol canoledig gyda Lloegr.

# Ynni cymunedol yn erbyn niwcs mawr

***Mae'r symudiad oddi wrth y cewri niwclear monolithig tuag at adnoddau adnewyddadwy, gan gynhyrchu ar raddfa fach o fewn y gymuned, yn creu chwyldro ynni newydd,* meddai Brian Jones.**

### *Ynni adnewyddadwy, cymunedau adnewyddadwy*

Daw cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned â llu o fuddiannau, gan gefnogi'r economi leol trwy swyddi a buddsoddi. Maent yn creu mwy o gydlyniad cymunedol a mwy o ymwybyddiaeth o ddefnydd ynni. Gallant helpu gyda thlodi tanwydd. Cedwir cyfoeth o fewn y gymuned ac yng Nghymru, heb i'r elw gael ei sugno allan gan gorfforaethau mawr yn Llundain, Paris neu Tokyo.

### *Ar waith*

Yma yng Nghymru, mae gennym eisoes nifer o gynlluniau llwyddiannus sy'n cynhyrchu ynni glân ac yn buddsoddi yn y gymuned:

• Cymdeithas Budd Cymunedol yw **Fferm Wynt Awel** sy'n berchen dau dyrbein gwynt 2.35MW ar Fynydd y Gwrhyd, 20 milltir o Abertawe, sy'n cynhyrchu digon o drydan i gyflenwi mwy na 2,500 o gartrefi. Defnyddir yr elw o'r cynllun i gefnogi Awel Aman Tawe i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a datblygu projectau ynni adnewyddadwy eraill.

• Cynllun hydro 100 kW i'r de i Fethesda ar afon Ogwen yw **Hydro Ogwen**, a fydd yn cynhyrchu digon o drydan ar gyfer mwy na 100 o gartrefi. Bydd elw o'r cynllun yn cael ei fuddsoddi yn ôl yn y gymuned leol.

• Mae fferm solar 1MW **Adfywio Gŵyr** yn cynhyrchu digon o drydan ar gyfer mwy na 300 o gartrefi.

• Menter gymdeithasol yw **Ynni Sir Gâr.** Mae ei thyrbein gwynt 500kW wedi bod yn cynhyrchu trydan ers 2016. Buddsoddwyd elw o'r cynllun yn Salem, y pentref lle saif y tyrbein, ac fe'i ddefnyddiwyd i fewnosod paneli solar, batri storio ynni, a phwmp gwres yn Neuadd Gymuned Salem, sydd golygu nad oes biliau ynni i'w talu am ran helaeth o'r flwyddyn.

• Mae **SCEES** (Cynllun Ynni a Menter Cymunedol Abertawe) wedi gosod paneli ynni haul ar ddeg adeilad cymunedol. Defnyddir yr elw o'r cynllun i gefnogi projectau lleol i helpu pobl i ddatblygu sgiliau, ar fentrau, twf economaidd ac i greu swyddi.

### *Sut mae mynd ati?*

Elwodd y cynlluniau hyn ar gyllid a chefnogaeth yn y camau cynnar, yn cynnwys gan Lywodraeth Cymru, a'u helpodd i ddatblygu cynlluniau busnes, talu am astudiaethau technegol ac ymarferoldeb, neu dalu am gostau adeiladu a chynhyrchu cynnar. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, trwy ei gwasanaeth cefnogi Ynni Lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu gwerth £6.4 miliwn o grantiau a benthyciadau ac wedi cefnogi 15 project a all gynhyrchu cyfanswm o 8.47MW o ynni adnewyddadwy.
Mae'n debyg y bydd y gefnogaeth yn parhau, â'r nod o fod ag un Gigawatt o allu cynhyrchu trydan adnewyddadwy yn eiddo i gymunedau lleol erbyn 2030, a'r disgwyliad y bydd pob project ynni adnewyddadwy newydd ag elfen o berchenogaeth leol erbyn 2020. Mae'r sector yng Nghymru yn gweithio ar y cyd i helpu grwpiau cymuned i ganfod projectau ymarferol a llunio cynlluniau busnes.
Er na ellir dod â phob cynllun i fodolaeth, mae'r twf yn sylweddol o hyd. Sgiliau, brwdfrydedd ac ymrwymiad cymunedau lleol sydd wrth galon y gefnogaeth hon, a'r angen am fynd i'r afael ag effeithiau cynhesu byd-eang ac anghenion cenedlaethau i ddod.

### heddweithredu:

Helpwch ynni adnewyddadwy cymunedol i guro'r cewri niwclear: mwy o wybodaeth am wasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru yma – http://localenergy.gov.wales/cy/

# Y fyddin yn colli pumed drôn

***Efallai nad yw dronau Watchkeeper Aberporth yn effeithiol iawn o ran ysbïo ar y gelyn, ond maen nhw'n sicr yn dychryn pobl leol – ac yn arswydo trethdalwyr.* Jill Gough ag adroddiad o orllewin Cymru.**

Prynhawn tesog o Fehefin yn ne Ceredigion oedd hi. Roedd rhyw 200 o rieni a phlant Ysgol Gynradd Penparc ar gae'r ysgol ar gyfer Dydd Mabolgampau blynyddol yr ysgol. Roedd plant bach wrthi'n rhedeg eu rasys a gweiddi gyda'u rhieni, ac fel sy'n gyffredin bellach, roedd drôn Watchkeeper milwrol o faes awyr Parc Aberporth yn troelli'n swnllyd uwchben. Roedd dosbarth o blant oed-meithrin mewn Portacabin ar y lle chwarae.

Daeth y mabolgampau i ben â'r drôn yn dal yn yr awyr. Gwta filltir i ffwrdd, roedd llanc 17-oed yn cael ei wers yrru gyntaf. Wrth iddo yrru ar hyd y ffordd, hedfanodd y drôn yn isel dros y ffordd gan brin fethu to'r car cyn chwalu'n glec mewn clwstwr o goed, ryw 10 metr o ffermdy. Lwc pur oedd hi na chafodd neb ei anafu y prynhawn hwnnw.

## *Arian y cyhoedd i byrsiau preifat*

Parc Aberporth, ar fryn gerllaw, yw prif ganolfan 54 o ddronau Watchkeeper y fyddin ers 2009. Gellir eu rheoli gan filwyr ar y ddaear trwy signalau radio, a'u diben yw cynorthwyo gydag rhagchwilio, canfod targedau a llywio taflegrau.

Mae'r dronau wedi eu seilio ar ddyluniad Ffrengig/Israeli yr Elbit Hermes 450, wedi eu hadeiladu gan Thales a'u cynnal a'i cadw ym Mharc Aberporth gan Thales-Elbit. Costiodd pob Watchkeeper £22 miliwn, yn cynnwys isadeiledd.

Mae'r project, a gychwynnodd yn 2005, wedi wynebu problemau lu. Gwyddom y bu pum damwain gyda dronau, ac y costiodd y cynllun £1.2 biliwn o leiaf hyd yn hyn, er nad yw'n gwbl weithredol o hyd. Aeth mwy na £26 miliwn mewn grantiau Ewropeaidd ac arian gan Lywodraeth Cymru tuag at wella cyfleusterau'r maes awyr sydd mewn dwylo preifat, er mwyn i Qinetiq, a busnesau dronau eraill o bosib, allu datblygu 'Canolfan Ragoriaeth UAVs (awyrennau di-beilot)'. Does dim Canolfan o'r fath wedi ymddangos hyd yma, a chredir mai dim ond 20 o'r 1,000 o swyddi a addawyd a grewyd.

## *Diogelwch i bwy?*

Mae trigolion lleol yn ofni y bydd un arall o'r dronau hyn yn disgyn ar ysgol gynradd, cartref teuluol neu ffordd brysur. Mae pobl leol a gwynodd wrth y Weinyddiaeth Amddiffyn (WA) yn dweud y gwnaed iddynt deimlo'n ffôl ac y diystyrwyd eu pryderon. Dywedodd y WA wrth rai rhieni yn flaenorol "Does dim dronau'n hedfan dros Ysgol Penparc".




Meddai un rhiant, a siaradai ar ran llawer: "Pe bai wedi disgyn ar y cae mabolgampau, gallai fod wedi lladd teuluoedd cyfan, a fyddai wedi bod yn ddeifiol i'r gymuned gyfan." Dywedodd rhiant arall, pan glywodd bod y frigad dân yn ymdrin â'r tanwydd oedd yn gollwng o'r drôn chwilfriw, ei bod newydd sylweddoli bod drôn â llwyth o danwydd yn "fom hedfan" i bob diben.

Meddai'r WA: "Diogelwch yw ein prif flaenoriaeth, ac rydym wedi atal unrhyw hedfan tra bôm yn dechrau ymchwilio i beth ddigwyddodd."

**DAMWEINIAU DRONAU WATCHKEEPER**

1 Tachwedd 2014 – Damwain wrth lanio ym Mharc Aberporth ('Master Override' diffygiol)
2 Tachwedd 2015 – Damwain ar Boscombe Down – (y System Gyfrifiadur Ar-fwrdd yn methu)
3 a 4 Medi 2017 - 2 Watchkeeper yn disgyn i Fôr Iwerddon – ni ddaethpwyd o hyd iddynt.
5 Mehefin 2018 – Damwain ger ysgol Penparc

# Gweithredu ac adweithio

• Daeth gwanwyn gwleidyddol gythryblus 2018 â phrotestiadau yn erbyn gwrthdaro rhyngwladol gan grwpiau heddwch a chyfiawnder ledled Cymru, o Langollen i Fangor. Testun pryder mawr oedd bomio Syria gan UDA, Prydain a Ffrainc ar ôl saith mlynedd o ryfel cartref a rhyfela dirprwyol, ac yna, ei bomio gan awyrennau llywodraeth Syria a Rwsia. Un arall oedd y gyflafan yn Gasa lle lladdwyd ac anafwyd protestwyr a meddygon o Balestiniaid gan luoedd Israel.

• Ar 14 Ebrill 2018 roedd Senedd-dy Owain Glyndŵr ym Machynlleth yn orlawn ar gyfer 'Cymru Ddi-niwclear, Werdd' a drefnwyd gan CWNC (Cynghrair Wrth-niwclear Cymru) gydag CND Cymru, Cymdeithas y Cynghorau Di-niwclear, Greenpeace, Cymdeithas yr Iaith a grwpiau yn erbyn pŵer niwclear. Richard Bramhall a gadeiriodd, a'r siaradwyr oedd y Cyng. Elwyn Vaughan (Powys), y Cyng. Sue Lent (NFLA), Dr Carl Clowes (PAWB), yr ymchwilydd niwclear Tim Deere-Jones, Deilwen Evans (CADN0), Sean Morris (NFLA),a Tim Richards (CWNC). Roedd yr ynni i gyd yno – ac efallai ysbryd yr hen weledydd hwnnw, Owain Glyndŵr.

• Mae pryder cynyddol yng Nghymru ynglŷn ag ymchwydd newydd o filitariaeth a digwyddiadau cyhoeddus sy'n clodfori rhyfel. Ysgogodd y cynghorydd o Wrecsam, Marc Jones, ymateb cynddeiriog ym mis Mai yn siambr y cyngor pan feirniadodd gynlluniau i anrhydeddu'r Awyrlu â seremoni sifig a gorymdaith. Meddai'r Cyng Jones: 'Os edrychwn ar strydoedd Wrecsam heddiw, mae gennym gyn-filwyr digartref yn brwydro â salwch meddwl, alcohol, cyffuriau a PTSD. Dyna y dylem fod yn canolbwyntio arno, yn hytrach na chynnal gorymdaith … ni ddylem fod yn clodfori rhyfel, dylem fod yn atal rhyfel.'

• Treuliodd y celf-weithredydd o'r Alban, Ailie Rutherford, gyfnod preswyl â nawdd Cyngor y Celfyddydau gyda CALL Llandudno yn 2017-18. Gweithiodd yn egnïol gyda nifer o grwpiau lleol, ond ymddiswyddodd pan wrthododd noddwyr a chyllidwyr CALL gefnogi protest heddychlon yn erbyn Dydd y Lluoedd Arfog fel rhan o'i gweithgareddau.

• Llandudno, yn frith o faneri Jac yr Undeb, oedd canolbwynt jambori anferth Dydd y Lluoedd Arfog ar ddiwedd Mehefin, â mwy na 100,000 o ymwelwyr, yn cynnwys y pâr carismatig hwnnw, y Dywysoges Anne a Theresa May. Cynhaliwyd cyfarfod yng Nghraig y Don y noson cynt gyda siaradwyr o Armed Forces Watch a Veterans for Peace. Ar y diwrnod, bu celf-weithredwyr a Grŵp Heddwch Sir Gonwy yn protestio wrth i awyrennau hedfan uwch ben, a thra dangoswyd i blant ifanc sut i danio arfau marwol. Eglurodd Donald Saunders, 93 oed, gwrthwynebydd cydwybodol ar hyd ei oes fel ei dad o'i flaen, fod y grŵp yn parchu aelodau'r lluoedd arfog a'r cof am y meirw, ond yn ffieiddio pob rhyfel, a'r driniaeth hon o ryfel fel adloniant teuluol.




Neil Conroy

*Yn 93, mae'r ymgyrchydd heddwch o Grynwr Donald Saunders yn dal yn weithredydd diflino*

# 100 mlynedd o'r bleidlais i fenywod

***Aeth hyrwyddo hawliau gwleidyddol menywod a'r argraff a wnaed gan fenywod fel ymgyrchwyr heddwch law yn llaw ar hyd y ganrif ddiwethaf.* Aeth Lotte Reimer i Gaerdydd i ddathlu ac i ystyried.**

Ddydd Sul 10 Mehefin 2018, roeddwn yn rhan o grŵp o fenywod Aberystwyth/Borth a ymunodd â rhyw 10,000 o fenywod yng Nghaerdydd i ddathlu 100 mlynedd o'r bleidlais i fenywod. Fe gerddon ni a chanu wrth gario ein baner odidog a grewyd gan rai o'r grŵp yn ystod nifer o weithdai gyda'r artist Becky Knight. Dangosai, ymhlith delweddau eraill, bortreadau o'r menywod a oedd yn cymryd rhan, eu mamau a menywod blaenllaw eraill o Gymru.




Lotte Reimer

*Menywod o Aberystwyth yn gorymdeithio trwy Gaerdydd, Mehefin 2018*

Buom yn ystyried sut mae'r swffragetiaid yn cael eu dathlu heddiw o'i gymharu â phan oedd eu brwydr yn ei hanterth, pan oedd pobl yn eu hystyried yn derfysgwyr a achosodd lawer o niwed i eiddo. Gellir eu cymharu ag ymgyrchwyr heddwch heddiw sy'n dinistrio offerynnau rhyfel – tybed a gaiff y rheini eu dathlu yn yr un modd ymhen can mlynedd? Choelia'i fawr!

# Pawb yn newid lle yn y Cynulliad

***Wrth i ni fynd i'r wasg yn gynnar yng Ngorffennaf 2018, gellir disgwyl cryndod, os nad daeargryn, yn nhirwedd wleidyddol Cymru yn y dyfodol agos.***

Mae Carwyn Jones, Llafur Cymreig, yn rhoi'r gorau i fod yn Brif Weinidog yn yr hydref, ac mae ei ddarpar-olynwyr yn crynhoi.

Mae arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig wedi ymddiswyddo o dan bwysau gan Doriaid yn San Steffan.

Mae arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, yn wynebu gwrthryfel mewn sawl etholaeth, ac mae dau o'i chyd-ACau wedi penderfynu ei herio. Galwodd hithau am adolygiad trylwyr o bolisïau pŵer niwclear ei phlaid.

Yn y cyfamser, mae'r Blaid Werdd, sydd heb gynrychiolaeth yn y Cynulliad, wedi pleidleisio i aros ynghlwm â Lloegr yn hytrach na bod yn blaid annibynnol Gymreig. Dyddiau diddorol.

Pa blaid bynnag rydych ynddi – neu'r un ohonynt – da chi, gweithiwch i osod agenda ar gyfer diarfogi a heddwch.

Sadwrn
3 Tachwedd 2018

**JOBS NOT BOMBS**

Ysgol Undydd yn Abertawe
gyda

**FABIAN HAMILTON AS**

*a siaradwyr eraill*

**Cefnogir gan CND Cymru a Gwreiddiau Llafur Cymru**

*Manylion pellach i ddilyn*

# HYSBYSIAD 1

**Croeso! Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Gaerdydd eleni. Cofiwch alw heibio i'r Babell Heddwch i ddweud helo, trafod ymgyrchoedd, rhannu syniadau, ac ymuno ag CND Cymru.**

# HYSBYSIAD 2

## *Pawb ar fwrdd y Trên Heddwch!*

Mae Cyngor Heddwch Henffordd yn estyn gwahoddiad i ymuno ag ymgyrch y Trên Heddwch ar hyd o lein o ogledd i dde Cymru. P'run ai eich bod am chwifio o'r platfform neu'n ymuno â ni ar y trên, rydym yn croesawu eich cefnogaeth. Y dyddiad i'ch dyddiadaur: Dydd Mercher 24 Hydref 2018. Mae'n bryd rhoi Heddwch nôl ar y cledrau.

Ar 7 Gorffennaf llynedd arwyddodd 122 o wledydd gytundeb i wneud arfau niwclear yn anghyfreithlon a chychwyn y broses ddiplomyddol i'w dileu. Fodd bynnag, ni arwyddodd y DU y Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear ac nid yw'n bwriadu gwneud. Felly, gan teithio ar dren cyffredin o ardal Yr Hob/Caer/Wrecsam, bydd Cyngor Heddwch Henffordd yn casglu llythyron a deisebau o bob gorsaf ar y lein o'r gogledd i'r de hyd at Gasnewydd – yn mynnu bod y DU yn arwyddo'r cytundeb gwahardd arfau niwclear hwn. Yna, byddwn yn byrddio trên cyflym i Lundain i gyflwyno'ch llythyron a'ch deisebau yn bersonol i Dŷ'r Cyffredin. Dydd Mercher 24 Hydref yw Dydd y Cenhedloedd Unedig, a rhan o Wythnos Diarfogi – diwrnod perffaith ar gyfer ymgyrchu i waredu'r byd o arfau niwclear. Ein bwriad yw y bydd pob gweithred yn yr ymgyrch hon yn heddychlon, yn barchus ac yn urddasol.

I ymuno â ni ar y dydd neu i gynnig cefnogaeth arall, cysyllter â Kim Holroyd, Cyngor Heddwch Henffordd **kimholroyd@hotmail.com** neu ffoniwch 07843 105 323.

# HYSBYSIAD 3

## *CND Cymru Llafur*

**Yn ymgyrchu dros Heddwch a Diarfogi**

Ymunwch â ni nawr: mae CND Cymru Llafur yn agored i holl aelodau'r Blaid Lafur sydd hefyd yn aelodau o CND Cymru. Ein nod yw adeiladu cefnogaeth i ddiarfogi niwclear a pholisi tramor heddychlon o fewn y Blaid Lafur. Yn ogystal ag aelodau unigol, rydym hefyd yn croesawu cefnogaeth gan bleidiau etholaeth a changhennau ac aelodau cysylltiol eraill o fewn Plaid Lafur Cymru. Am fwy o wybodaeth ar sut i gefnogi CND Cymru Llafur o fewn eich plaid leol, cysylltwch â: ***mary.jones17@outlook.com***

Y llynedd, pleidleisiodd y TUC, gyda chefnogaeth gref Unite, o blaid cynnig yn galw ar y Blaid Lafur i sefydlu Asiantaeth Arallgyfeirio Amddiffyn yr Wrthblaid (DDA) fel blaenoriaeth. Cefnogir hyn gan Weinidog yr Wrthblaid dros Heddwch a Diarfogi, Fabian Hamilton AS, sydd yn glir iawn y byddai sefydlu DDA yn elfen bwysig o ran cyrchu nodau polisi tramor allweddol a ddisgrifiwyd ym Maniffesto'r Blaid Lafur yn 2017, sef:

- Rheoli allforio arfau, yn enwedig i wledydd â record wael ar hawliau dynol
- Bod y DU yn arwain y ffordd ar ddiarfogi niwclear amlochrog
- Symud y ffocws o ddiogelwch milwrol i ddiogelwch dynol

Mae arnom angen DDA cysgodol nawr, i weithio gydag adrannau eraill yr wrthblaid ar ddatblygu strategaeth ddiwydiannol a all helpu i sicrhau polisi tramor moesol, diarfogi niwclear trwy gefnogi gwaharddiad y CU ar arfau niwclear, a sicrhau swyddi cynaliadwy. Rydym am gadw'r ddadl hon yn fyw ac iach o fewn y blaid a'r mudiad undebau llafur yng Nghymru.

# HYSBYSIAD 4

## *CND@60*

Daw gosodwaith trigain mlwyddiant CND yn cyrraedd Caerdydd ddydd Sadwrn 1 Medi. Dewch ein gweld ni – cerflun Nye Bevan, Queen Street 11yb tan 3yp. Am fanylion pellach, cysyllter â Brian Jones ***brian.jones@phonecoop.coop***

# CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.

www.cndcymru.org
heddwch@cndcymru.org
twitter: @cndcymru
facebook: cndcymru

**CYSYLLTIADAU**


**Brian Jones**
01792 830 330
swanseacnd@btinternet.com
**Duncan Rees**
07774 268 371
Duncan.rees01@gmail.com
**Philip Steele**
01248 490 715
phil_steele@btinternet.com
**John Cox**
01495 773 495
drjohncox@aol.com


**TRYSORYDD, AELODAETH AC AELODAU:**


**Michael Freeman,**
CND Cymru,
9 Primrose Hill, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com


**YSGRIFENYDD CENEDLAETHOL:**


C/o Llys Gwyn,
Glynarthen, Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188


# HEDDWCH


yw cylchgrawn yr **Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru** (CND Cymru)

**Golygydd:**
*Philip Steele*
phil_steele@btinternet.com

**Cyfiethydd:**
*Siân Edwards*
sian@siandefynnog.wales

**Cynhyrchu a phostio:**
*Redkite Print*
redkiteprint@thefreeflyer.com


Nid yw cynnwys **HEDDWCH** o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisiau C N D Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth.

Anfonwch unrhyw sylwadau, cyfraniadau neu ddyddiadau am ddigwyddiadau at y golygydd.

Bydd y rhifyn nesaf yn ymddangos yn y Hydref 2018.




*Meilyr Tomos*

*Japan wedi Fukushima: cyfrifwyr Geiger yn eich siop leol nawr*